# Creu Newid er mwyn Heddwch

## Llawlyfr i Staff

## Cyflwyniad

Mae'r llawlyfr yma'n cyd-fynd â'r pecyn cymorth 'Creu Newid er mwyn Heddwch' i ddisgyblion, sydd wedi'i gynllunio i'w ddefnyddio gyda disgyblion CA3 – 4. Nod y pecyn cymorth yw cefnogi pobl ifanc i archwilio beth yw ystyr heddwch iddyn nhw ac i weithredu er mwyn creu newid cadarnhaol yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang.

**Canlyniadau Dysgu:**

Wrth gyflawni'r gweithgareddau yn y pecyn yma, bydd disgyblion yn ymarfer nodweddion allweddol un o ddibenion craidd y cwricwlwm cenedlaethol newydd fel sydd wedi'i amlinellu yn nogfen adolygu yr Athro Graham Donaldson 'Dyfodol Llwyddiannus'[1] – hynny yw datblygu'n 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'. Rhain yw:

- canfod, gwerthuso a defnyddio tystiolaeth wrth ffurfio barn
- trafod materion cyfoes ar sail eu gwybodaeth a'u gwerthoedd
- deall ac arfer eu cyfrifoldebau a'u hawliau dynol a democrataidd
- deall ac ystyried effaith eu gweithredoedd wrth ddewis a gweithredu
- bod yn wybodus am eu diwylliant, eu cymuned, eu cymdeithas a'r byd yn awr ac yn y gorffennol
- parchu anghenion a hawliau pobl eraill, fel aelod o gymdeithas amrywiol
- dangos eu hymrwymiad i sicrhau cynaliadwyedd y blaned

Mae modd cyflawni'r gweithgareddau sydd yn y pecyn yma naill ai fel rhan o Faes Dysgu'r Dyniaethau yn y Cwricwlwm Cenedlaethol, neu fel rhan o'r Her Dinasyddiaeth Fyd-eang ym Magloriaeth Cymru, neu fel adnodd ar ei ben ei hun yn eich ysgol neu gyda phobl ifanc.

Mae'n bosib y bydd y problemau sydd wedi'u disgrifio ar dudalen 2 y pecyn cymorth yn ymddangos yn enfawr, ac mae'n bosib y byddan nhw'n gofyn: 'Beth alla ***i*** ei wneud i wneud gwahaniaeth?'  Fodd bynnag, pwrpas y pecyn cymorth yw nodi'r ffaith y gall pob un ohonon ni gael effaith gadarnhaol, waeth pa mor fach mae'r effaith honno'n ymddangos. Mae'r gweithgareddau wedi'u cynllunio i fod yn heriol, ond hefyd i rymuso pobl ifanc ac i fod yn hwyl. Y gobaith yw y bydd eich disgyblion yn mwynhau creu newid er mwyn heddwch!

---

[1] 'Dyfodol Llwyddiannus: Adolygiad Annibynnol o'r Cwricwlwm a'r Trefniadau Asesu yng Nghymru', yr Athro Graham Donaldson CB – Chwefror 2015. Dibenion craidd fel sydd wedi'u rhestru ar dudalen 31.

## Treftadaeth Heddwch Cymru a'i Pherthnasedd Heddiw:

Mae'r ffordd mae gwlad yn edrych yn ôl ar ei hanes yn bwysig i hunaniaeth pobl a'r hyn maen nhw'n ei gyfri'n bwysig. Dros y pedair blynedd sy'n nodi can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, mae prosiect Cymru dros Heddwch, sydd wedi'i leoli yng Nghanolfan Materion Rhyngwladol Cymru, wedi bod yn gweithio gydag ysgolion a grwpiau cymunedol i ateb y cwestiwn:

***'Yn ystod y can mlynedd ers y Rhyfel Byd Cyntaf, sut mae Cymru wedi cyfrannu at yr ymgais i sicrhau heddwch?'***

Rydyn ni wedi darganfod treftadaeth heddwch gryf, gan gynnwys y llinynnau eang canlynol:

- **Cofio dros Heddwch**: cofio'r bobl a gollodd eu bywydau yn sgil y rhyfel, gan gynnwys y 35,000 o bobl o Gymru a fu farw yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf
- **Gwrthwynebu Gwrthdaro**: straeon am wrthwynebwyr cydwybodol a'r bobl sydd wedi ymgyrchu dros heddwch
- **Cynnig Lloches**: sut mae Cymru wedi croesawu pobl sy'n ffoi o wrthdaro, gan gynnwys pobl o Wlad Belg yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, plant o Wlad y Basg yn ystod Rhyfel Cartref Sbaen, a phobl o Syria heddiw
- **Hyrwyddo Cydraddoldeb a Hawliau Dynol**: straeon am sut mae merched wedi ymgyrchu dros heddwch, gan gynnwys deisebau, gorymdeithiau, a gwersylloedd heddwch fel yr un ar Gomin Greenham
- **Meithrin Cydsafiad**: sut mae Cymru wedi sefyll ochr yn ochr â gwledydd eraill i ffurfio cysylltiadau rhyngwladol
- **Ysbrydoli Cenedlaethau'r Dyfodol**: sut mae pobl ifanc o Gymru wedi bod yn rhan o'r gwaith o greu byd mwy heddychlon, yn benodol drwy ledaenu Neges Heddwch ac Ewyllys Da bob blwyddyn

Mae'r pecyn cymorth 'Creu Newid' yn cynnwys astudiaethau achos penodol ar gyfer pob un o'r llinynnau yma. Nod y pecyn cymorth yw ysbrydoli pobl ifanc gyda straeon tebyg i'r rhain er mwyn bod yn heddychwyr y dyfodol.

## Manteision Hanes Heddwch:

Er bod heddwch yn nod mae'r ddynoliaeth yn ymdrechu i'w gyrraedd yn gyson, nid yw astudio heddwch a sut i'w sicrhau yn amlwg iawn yng nghwricwlwm yr ysgol.

Rhai o'r **manteision** o osod mwy o bwyslais ar heddwch yng nghymuned yr ysgol ac fel rhan o'r cwricwlwm yw:

- Bod disgyblion yn hapus i ddod i'r ysgol ac yn agored i ddysgu
- Bod y berthynas rhwng disgyblion, a rhwng disgyblion a staff yn gadarnhaol
- Bod ymdrin â themâu sy'n ymwneud â heddwch yn annog pobl ifanc i ymchwilio, i feddwl yn feirniadol ac i weld materion o ystod o safbwyntiau, ac yn bwydo mewn i un o ddibenion craidd y cwricwlwm cenedlaethol newydd, sef bod pobl ifanc yn datblygu'n 'ddinasyddion egwyddorol, gwybodus yng Nghymru a'r byd'
- Mae heddwch yn thema gymwys ar gyfer gwaith trawsgwricwlaidd, yn enwedig ym maes y Dyniaethau, ac felly mae'n thema dda i'w hymgorffori yn y cwricwlwm cenedlaethol newydd
- Gall gwaith ar heddwch gynnwys ymchwil a phrosiectau cymunedol, a all ffurfio rhan o Fagloriaeth Cymru, gan gynnwys gwaith ar Ddinasyddiaeth Fyd-eang.

Gall y gweithgareddau yn y pecyn cymorth yma, ynghyd â rhagor o bwyslais ar themâu sy'n ymwneud â heddwch, gael eu cyfuno gyda mentrau eraill yn eich ysgol, neu bod yn sbardun er mwyn datblygu mentrau o'r fath. Gallai'r rhain gynnwys:

- Polisi ac ymarfer gwrthfwlio
- Cyngor yr ysgol a phwyllgorau eraill disgyblion
- Cynllun cefnogaeth gan gyfoedion a chyfryngu
- Eco-Sgolion[2]
- Ysgolion sy'n Parchu Hawliau (UNICEF)[3]
- Bod yn ysgol noddfa[4]



*Gwobrau Heddychwyr Ifanc – Mawrth 2018*

Byddai modd defnyddio'r gweithgareddau yn y pecyn yma fel rhan o Wythnos Heddwch yn eich ysgol, o bosib i gyd-fynd â dyddiad allweddol yn y calendr, er enghraifft Diwrnod Heddwch Rhyngwladol (21 Medi). Mae syniadau am beth i'w wneud yn ystod Wythnos Heddwch yn eich ysgol ar gael yma.

Mae'n bosib y bydd gan eich ysgol ddiddordeb hefyd yng **Nghynllun Ysgolion Heddwch Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru**. Mae gwybodaeth am y cynllun a sut i fod yn rhan ohono wedi'i chynnwys yn y pecyn yma.

---

[2] Gwefan swyddogol Eco-Sgolion
[3] Gwobr Ysgolion sy'n Parchu Hawliau
[4] Ysgolion Noddfa

# Cefnogi Pobl Ifanc i Weithredu dros Heddwch:

Wrth ddewis mater maen nhw'n teimlo'n gryf yn ei gylch, penderfynu beth maen nhw'n gallu ei wneud, yna cynllunio, gweithredu a gwerthuso gweithred benodol, mae'n bwysig bod disgyblion yn cael eu cefnogi gan oedolion.

**Gall athrawon:**

1. Gynnig arweiniad a chyngor am gasglu gwybodaeth
2. Helpu disgyblion i ddeall pwy all roi cymorth iddyn nhw i gyrraedd eu nod – e.e. tîm arwain yr ysgol, cynghorwyr lleol, Aelodau'r Cynulliad neu Aelodau Seneddol – a sut mae modd cysylltu ag arweinwyr a gwleidyddion (e.e. drwy www.writetothem.com)
3. Rhoi arweiniad ynghylch beth a ganiateir/na chaniateir a beth sy'n fwyaf tebygol o fod yn effeithiol
4. Helpu disgyblion i gael cyhoeddusrwydd i'w gweithred ac i rannu'r canlyniadau – e.e. drwy'r wasg leol

**Gall ysgolion:**

1. Wahodd aelodau o grwpiau heddwch lleol i drafod materion heddwch gyda'r disgyblion
2. Sefydlu clwb dadlau
3. Sefydlu pwyllgor heddwch disgyblion (e.e. fel rhan o gyngor yr ysgol)
4. Hyfforddi disgyblion mewn sgiliau datrys gwrthdaro
5. Dod yn Ysgol Heddwch (mae rhagor o wybodaeth ar ddiwedd y pecyn yma)



*Ysgol Pum Heol – trafodaeth Cyngor Ysgol*



*Trwy ganiatâd Ysgol David Hughes, Sîr Fôn*

## Arweiniad ar sut i Ddelio â Materion Anodd a Chymhleth:

Gall materion sy'n ymwneud â heddwch fod yn anodd ac yn ddadleuol am eu bod:

• Yn gallu ennyn teimladau a safbwyntiau cryf

• Yn delio â chwestiynau am werthoedd a chred, sy'n gallu arwain at amrywiaeth barn

• Yn gymhleth, heb "atebion" clir

• Yn trafod amrywiaeth eang o bynciau, er enghraifft hawliau dynol, ymfudo, cysylltiadau rhyngwladol a sut i ddelio â gwrthdaro yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae heddwch yn bwnc a fydd yn effeithio ar fywydau pobl ifanc yn uniongyrchol heddiw ac yn y dyfodol. Bydd ymdrin â'r pwnc yn yr ystafell ddosbarth yn galluogi pobl ifanc i:

- ddysgu gwybodaeth a chael dealltwriaeth am faterion cyfoes,
- meddwl yn feirniadol ac archwilio materion o wahanol safbwyntiau,
- archwilio'u gwerthoedd eu hunain mewn lle diogel,
- datblygu sgiliau cyfathrebu a datrys gwrthdaro ac empathi, a
- dysgu i barchu barn pobl eraill, yng nghyd-destun hawliau dynol, cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Mae arweiniad ar sut i ymdrin â materion dadleuol yn yr ystafell ddosbarth ar gael mewn canllaw cynhwysfawr gan Oxfam, sydd ar gael i'w lwytho yma:

# Gweithgareddau'r pecyn cymorth 'Creu Newid er mwyn Heddwch'

# Nodiadau i athrawon

## A. Beth mae Heddwch yn ei olygu i chi?

Mae'r pecyn cymorth i ddisgyblion yn dechrau drwy edrych ar beth mae heddwch yn ei olygu iddyn nhw. Gall heddwch ymddangos fel cysyniad haniaethol, felly bydd y sefyllfaoedd yn yr adran yma'n helpu pobl ifanc i uniaethu gyda'r cysyniad. Yna, bydd disgyblion yn ystyried beth mae heddwch yn ei olygu iddyn nhw ar lefel bersonol, yn yr ysgol, yn y gymuned ac yn fyd-eang.

Ceir dwy weithgaredd sy'n helpu disgyblion i feddwl yn ddyfnach am ystyr heddwch. Yn y **weithgaredd gyntaf** mae disgyblion yn trafod dyfyniadau mewn grwpiau ac yn penderfynu ar eu hoff ddyfyniad a pham. Gallwch hefyd gyfeirio eich disgyblion at ddyfyniadau eraill ar-lein, sydd ar gael yma:

Mae'r **ail weithgaredd** yn rhoi cyfle i ddisgyblion lunio eu diffiniadau eu hunain am beth mae heddwch yn ei olygu iddyn nhw:

a. Yn y cartref
b. Yn yr ysgol
c. Yn eu cymuned
d. Yn y byd – yn fyd-eang

Bydd hyn yn galluogi iddyn nhw feddwl am heddwch mewn termau mwy cadarn ac i gyfleu eu meddyliau yn eu geiriau eu hunain.

Mae **dwy weithgaredd ar-lein arall** yn cael eu crybwyll – sef stori Salma, merch 12 oed o Syria, a fideo gan Brian McArty, artist Americanaidd, sy'n cynnal dosbarthiadau therapi celf i blant sydd wedi cael eu heffeithio gan ryfel. Drwy ddarllen y stori yma a/neu wylio'r fideo, bydd disgyblion yn dysgu sut mae *absenoldeb* heddwch yn effeithio ar fywydau rhai pobl ifanc – hynny yw, bod ganddynt brofiad personol o ofn a thrawma, o golli eu cartrefi a phobl sy'n agos atyn nhw, ac weithiau'n gorfod ffoi i wlad arall.

***DS**: Mae gofyn bod yn ofalus wrth ddefnyddio'r deunyddiau yma os oes plant sy'n ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches yn eich dosbarth, neu blant mae gwrthdaro wedi effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw. Ar y llaw arall, efallai y byddan nhw'n barod i rannu rhai o'u profiadau os gofynnwch chi iddyn nhw ymlaen llaw. Gallwch hefyd wahodd rhywun o sefydliad sy'n gweithio gyda ffoaduriaid a cheiswyr lloches i ddod i roi cyflwyniad byr a thrafod y materion gyda'ch disgyblion.*

**Gweithgaredd ar gyfer Staff:**

Yn ystod cyfarfod staff neu sesiwn HMS, neilltuwch ychydig o amser i drafod beth mae heddwch yn ei olygu yng nghyd-destun yr ysgol – o ran amgylchedd hapus a diogel; cydberthynas rhwng disgyblion a staff; hyrwyddo ethos croesawgar a chynhwysol; a chefnogi disgyblion i gael y ddealltwriaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i ddelio â gwrthdaro mewn modd cadarnhaol.

Pa bolisïau, strwythurau ac ymddygiadau sydd ar waith er mwyn sicrhau bod eich ysgol yn un heddychlon? Sut fyddai modd gwella hyn?

Er mwyn deall profiad y disgyblion o'r ysgol fel cymuned heddychlon yn well, gallech ofyn iddyn nhw lenwi'r **holiadur Ysgolion Heddwch**, sydd ar gael gyda'r llawlyfr yma.

## B. Pam mae heddwch yn bwysig, a pham ddylech chi greu newid er mwyn heddwch?

Ar ôl darllen stori Salma a/neu wylio fideo Brian, efallai na fydd angen gofyn y cwestiwn yma! Rhoddir ychydig o wybodaeth yma ynghylch pam ei bod hi'n bwysig gweithio dros heddwch o ran gwrthdaro byd-eang ac anghydraddoldeb, ac o ran creu cymunedau heddychlon a chydlynus.

**Gweithgareddau ychwanegol**

Gofynnwch i'ch disgyblion wneud ychydig o waith ymchwil pellach am y materion yma, ac yna cynhaliwch **drafodaeth ddosbarth** ynghylch pam mae heddwch yn bwysig.

Cynhaliwch **drafodaeth gyda disgyblion a staff** ynghylch pam ei bod hi'n bwysig cael amgylchedd heddychlon yn yr ysgol, a sut mae modd cefnogi pobl ifanc i ddatblygu sgiliau er mwyn ymdrin â gwrthdaro yn eu bywydau.

Dyma **dri phrosiect a all fod o ddiddordeb i ysgolion:**

- **Cynllun Ysgolion Heddwch Cymru** – mae gwybodaeth ar gael ar ddiwedd y pecyn yma. I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â Chanolfan Materion Rhyngwladol Cymru yn canolfan@wcia.org.uk
- **Ysgolion Heddychlon** – prosiect sy'n cael ei gynnal gan Grynwyr y Canolbarth mewn ysgolion cynradd
- **Prosiect Alternatives to Violence (AVP)** – rhaglen ddatrys gwrthdaro y mae modd ei haddasu ar gyfer pobl ifanc mewn ysgolion (Cysylltwch â: jane.harries@avpwales.org.uk)

## C. Sut mae heddwch yn bwysig yng Nghymru a pham mae heddwch yn bwysig heddiw?

Mae'r adran yma ym mhecyn cymorth y disgyblion yn trafod prosiect Cymru dros Heddwch a'r dreftadaeth heddwch mae'r prosiect wedi dod ar ei thraws. Ar ôl i ddisgyblion gael cyfle i edrych ar wefan Cymru dros Heddwch a darllen rhai o'r blogiau ar safle blog 'Lleisiau Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru', cynhaliwch **drafodaeth ddosbarth** ar y cwestiynau yma:

- Ydych chi'n meddwl bod y straeon a gasglwyd drwy'r prosiect Cymru dros Heddwch yn bwysig?  Pam / pam lai?
- Beth sy'n dylanwadu ar y ffordd rydyn ni'n gweld ein hunain fel gwlad, ac a oes modd newid hynny?
- Pa agweddau ar dreftadaeth heddwch Cymru sy'n fwyaf perthnasol heddiw?

### Gweithgaredd 2:

Mae pump astudiaeth achos wedi'u cynnwys sy'n edrych ar wahanol agweddau ar dreftadaeth heddwch Cymru. Rhannwch y dosbarth yn bump grŵp, a rhowch astudiaeth achos wahanol i bob grŵp. Gofynnwch iddyn nhw:

- ddarllen y stori,
- trafod y cwestiynau sy'n dilyn y stori, a
- thrafod yr awgrymiadau ar gyfer gweithredoedd tebyg ar waelod pob astudiaeth achos. A yw'r rhain yn realistig i bobl ifanc ac yn rhywbeth y byddan nhw'n gyfforddus yn eu gwneud? A oes ganddyn nhw unrhyw awgrymiadau eraill?

Gofynnwch i'r grwpiau rannu eu straeon a'u prif bwyntiau o'r drafodaeth gyda gweddill y dosbarth. Gofynnwch iddyn nhw hefyd rannu eu barn am y gweithredoedd sydd wedi'u hawgrymu ar ddiwedd yr astudiaethau achos. A yw'r rhain yn bosib ac yn realistig i bobl ifanc?

## D. Beth sy'n bwysig i chi?

Mae disgyblion yn ystyried beth sydd wir yn bwysig iddyn nhw o ran heddwch. Mae rhai materion wedi'u hawgrymu a all fod yn berthnasol i'r ysgol, yn lleol, yn genedlaethol neu yn fyd-eang.

Mae **ymarfer rhestr ddiemwnt** yn galluogi disgyblion i ystyried amrywiaeth o faterion mewn grwpiau bach, a'u gosod mewn trefn yn ôl pwysigrwydd iddyn nhw, fel y gallan nhw benderfynu ar beth yr hoffen nhw weithredu. Mae cardiau gwag hefyd wedi'u darparu fel bod modd cynnwys materion eraill, ond cofiwch atgoffa'r disgyblion mai gweithred yn ymwneud â heddwch y dylai fod.

Mae'r materion sydd wedi'u nodi ar y cardiau yn rhai eithaf cymhleth, felly anogwch y disgyblion i drafod beth maen nhw'n ei olygu o ran gweithredu yn lleol, yn genedlaethol neu'n rhyngwladol. Er enghraifft, os ydyn nhw'n pryderu am **y newid yn yr hinsawdd**, yr effaith yn lleol fyddai ceisio lleihau gwastraff bwyd yn yr ysgol neu ofyn i gyngor lleol leihau gwastraff plastig; gallai gweithredu'n genedlaethol olygu lobïo Llywodraeth Cymru i wella trafnidiaeth gyhoeddus; gallai gweithredu byd-eang gynnwys ymgyrchu am dreth carbon yn fyd-eang, neu gefnogi gwledydd tlotach y mae newid yn yr hinsawdd yn effeithio'n uniongyrchol arnyn nhw.

## E. Pa fath o bethau allwch chi eu gwneud?

Dyma gyfle i ddisgyblion ystyried pa fath o bethau gallan nhw eu gwneud er mwyn heddwch a beth fyddan nhw – fel pobl ifanc – yn teimlo'n gyfforddus yn ei wneud. Mae'r broses yma'n bwysig am ei bod yn helpu disgyblion i feddwl am y weithred ymlaen llaw, o ran beth fyddai canlyniad posib y weithred, i ystyried beth fyddan nhw fel pobl ifanc yn teimlo'n gyfforddus yn ei wneud, a beth fyddai'r weithred fwyaf effeithiol.

**Mae modd rhannu'r gweithredoedd yn ddau gategori cyffredinol –** h.y.:

1. **Ymgyrchu dros newid, a**
2. **Gwella cysylltiadau a chefnogi pobl eraill.**

Mae rhai enghreifftiau o weithredu wedi'u cynnwys o dan bob categori.

**Atgoffwch y disgyblion i wirio gydag oedolyn bod yr hyn maen nhw'n cynllunio ei wneud yn gyfreithlon a'u bod yn gweithredu mewn modd cyfrifol bob amser wrth lunio cynllun gweithredu.** Ar yr un pryd, atgoffwch y disgyblion bod Erthygl 12 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn nodi bod gan blant a phobl ifanc yr hawl i leisio'u barn am faterion sy'n effeithio arnyn nhw, ac y dylai oedolion fel athrawon, rhieni a phobl mewn awdurdod, wrando ac ystyried eu barn wrth wneud penderfyniadau. Dylai gweithredu dros heddwch ganiatáu i bobl ifanc feddwl yn feirniadol ac i weithredu ar eu credoau fel dinasyddion egwyddorol a gwybodus yng Nghymru a'r byd. Mae'n bwysig eu bod nhw'n teimlo bod oedolion cyfrifol fel athrawon yn eu hannog nhw, yn eu harwain ac yn eu cefnogi nhw i gymryd y cam yma.

Mae **dwy weithgaredd** sy'n helpu disgyblion i feddwl am y math o weithred y byddan nhw'n hoffi ei gwneud**:**

1. **Trafodaeth Grŵp:**
   Mewn grwpiau bach, mae'r disgyblion yn edrych eto ar y materion oedd bwysicaf iddyn nhw yn yr ymarfer diemwnt, ac yn ystyried pa fath o weithredoedd gallan nhw eu cyflawni er mwyn creu newid. Beth fyddan nhw'n ei wneud i ddechrau? Beth fyddai'n hawdd, a beth fyddai'n fwy anodd? Beth fyddai eu nod yn y pen draw, a beth fyddai canlyniad llwyddiannus? Gofynnwch i'r disgyblion drafod yn gyflym ac i nodi eu sylwadau.

2. **Continwwm Gwerthoedd**, i'w gyflawni fel dosbarth cyfan:
   Mae'r disgyblion yn dychmygu bod llinell yn mynd o un pen i'r ystafell ddosbarth i'r pen arall. (Gallai hon fod yn llinell ddychmygol neu gallwch ddefnyddio tâp masgio i greu llinell ar y llawr). Dywedwch wrth y disgyblion mai un pen i'r linell yw 'Rwy'n hapus yn gwneud hynny'; ac mai'r pen arall yw 'Byddwn i'n casáu gwneud hynny'.

Nawr, darllenwch y gweithredoedd sydd ar y cardiau – pethau y gall pobl eu gwneud ar eu pennau eu hunain neu fel rhan o grŵp er mwyn creu newid. Ar ôl darllen un o'r gweithredoedd, gofynnwch i'r disgyblion feddwl am y weithred rydych chi newydd ei darllen ac i osod eu hunain ar y llinell yn dibynnu i ba raddau y byddai hynny'n rhywbeth maen nhw'n meddwl y gallan nhw ei wneud, neu ddim. Gofynnwch iddyn nhw wneud y darn yma mewn tawelwch, ac i beidio â phoeni ble mae eu ffrindiau'n sefyll. Nid oes ateb cywir nac anghywir, ac mae gan bob un ohonon ni ffyrdd gwahanol o ymateb i sefyllfaoedd.

Ar ôl i bawb symud ar ôl clywed pob gweithred, gallwch gynnal trafodaeth gyflym yn trafod pam mae pobl wedi dewis y pwynt yna ar y llinell. Beth sy'n hawdd neu'n heriol am weithred benodol? Beth sydd angen i chi ystyried? Pa weithredoedd sy'n fwyaf tebygol o lwyddo?

Bydd yr ymarfer yma'n helpu eich disgyblion i ddeall eu hunain yn well a beth maen nhw'n gallu ei wneud er mwyn creu newid, yn unigol neu gyda phobl eraill.

**Ffordd arall o wneud y gweithgaredd hwn yw trwy** argraffu sawl set o'r cardiau a gallai'r disgyblion wneud y broses yma mewn grwpiau bach – ac yna rhoi adborth i'r dosbarth cyfan pa weithredoedd fyddai orau er mwyn cyrraedd eu nod.

## F. Gweithredu: creu newid er mwyn Heddwch

**Dylai eich disgyblion bellach fod yn barod i weithredu dros heddwch!**

Mae **templed** wedi'i gynnwys gyda'r pecyn yma i'w helpu nhw i greu Cynllun Gweithredu. Wrth lunio'r cynllun, mae angen i'r disgyblion ystyried naw cwestiwn allweddol.

Dyma rai **adnoddau eraill** a all fod yn ddefnyddiol i'ch disgyblion wrth iddyn nhw gynllunio'u gweithredoedd:

1. **Adnoddau Creu Newid** (sef prosiect i annog dinasyddiaeth fyd-eang weithredol sy'n cael ei ddarparu ar y cyd gan Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru ac Oxfam Cymru. (Ewch i: http://www.wcia.org.uk/cewc/changemakers/topics_cy.html

2. **Templed i'r Weithgaredd Cynllunio Balŵn** ar dudalen 52 y Pecyn Gweithgareddau Cynghorau Ysgol sydd ar gael yma: http://www.hawliauplant.cymru/index.php/cyfranogiad/uwchradd/pecyn-cyngor-ysgol

Mae'n bosib y bydd disgyblion am glustnodi swyddi i wahanol aelodau o'r grŵp. Anogwch y disgyblion i wneud hyn, fel bod pawb yn cael eu cynnwys ac yn gallu defnyddio'u sgiliau.

**Sut i ddathlu llwyddiannau a'u rhannu â phobl eraill:**

Sicrhewch bod eich disgyblion yn cadw cofnod o'u gweithredoedd, gan gynnwys ffotograffau, blogiau a ffilmiau, a'u bod yn gallu dathlu eu llwyddiannau. Os oes modd, dylech gynnwys gwleidyddion lleol neu genedlaethol neu enwogion, a chael sylw yn y wasg. Gallai disgyblion gynnal gwasanaeth neu ddigwyddiad yn yr ysgol, neu ysgrifennu erthygl ar gyfer cylchgrawn yr ysgol.

Cofiwch hefyd roi gwybod i Ganolfan Materion Rhyngwladol Cymru o'r hyn mae eich disgyblion wedi'i gyflawni. (Anfonwch neges i canolfan@wcia.org.uk, @WCIA_Wales neu ewch i dudalen Facebook Canolfan Materion Rhyngwladol Cymru)

## Grwpiau Perthnasol ac Adnoddau Ychwanegol:

Mae rhestr o grwpiau perthnasol ac adnoddau ychwanegol a allai fod o ddefnydd i'ch disgyblion wedi'i chynnwys yn y llawlyfr yma.

**Mae dwy daflen atodol** wedi'u cynnwys gyda'r pecyn yma:

1. 'Syniadau ar gyfer Heddychwyr Ifanc' a
2. 'Gweithio i Greu Byd mwy Heddychlon yng Nghymru Heddiw: Beth alla *i* ei wneud?'

Rydyn ni'n gobeithio y bydd eich disgyblion yn mwynhau cynllunio a rhoi eu gweithred dros heddwch ar waith!

## Pob lwc!



*Cynhadledd Ysgolion Cymru dros Heddwch, 2016*



*Neges Heddwch ac Ewyllys Da, 2016*